**Dafydd Guto'n pwyso a mesur y clasur**

# JERUSALEM: Y DDINAS SANCTAIDD, 1904

## gan Thomas Evan Roberts (1857-1933)

Yn ystod 2000, fel droeon ysywaeth o'r blaen yn ei hanes, bu'r brifddinas o'r enw Caersalem, yn y newyddion. Ymhlith y llyfrau a gyflwynwyd i'm tad gan ei dad ac yntau'n ei dro yn ei gyflwyno i'm gofal, y mae cyfrol lliw porffor, a'r llythrennu ar y clawr blaen yn gwbl euraidd o ran lliw. Y gyfrol yw *Jerusalem: Y Ddinas Sanctaidd* ac y mae'n un o greadigaethau'r Parchedig Thomas Evan Roberts. Cyhoeddwyd y llyfryn dau can tudalen yn y flwyddyn 1904 ac argraffwyd gan W. Gwenlyn Evans, Caernarfon.

Ystyriaf y llyfr dan sylw'n un o drysorau'r iaith Gymraeg. Yr hyn a rydd werth ychwanegol i'r gyfrol yw bod Gruffydd Wiliam Evans, Beddgelert, sef fy nhaid o ochr fy nhad, wedi gludo dernyn o bapur wrth y clawr mewnol ac arno lofnod hynod ddestlus ac nid fel ysgrifen un o'i wyrion, sy'n garbwl – lled traed chwithig brain ar rew! Ni dd'wedaf ragor na hynny oherwydd cyfeirio at fy llawysgrifen a wnaf; llawysgrifen nad yw wedi gwella yr un gronyn gyda'r blynyddoedd fel y dywedwyd wrthyf gan gannoedd o bobl!

Dengys y flwyddyn 1906 ar waelod y llofnod fod y gyfrol ym meddiant y gofaint o daid ymhen dwy flynedd wedi'i dwyn o'r Wasg yng Nghaernarfon. Dau ddeg a thair mlwydd oed fyddai fy nhaid yr adeg honno, a phris y gyfrol fyddai tri swllt a chwe cheiniog – un deg a saith a hanner ceiniog yn ein harian cyfoes ni! Bargen yn wir! Ond yn anad dim byd arall y mae'n amlwg fod fy nhaid yn cefnogi llyfrau Cymraeg, yn eu prynu ac yn ddarllenwr pybyr yn ei amser hamdden. Byddai yn bendifaddau wedi mopio'i ben yn lân â'r *Casglwr* a'i gynnwys difyr a diddorol.

Paham ystyried y gyfrol yn glasur? Pam lai? Dyna a wna Lloegr bob gafael. Brolio llyfrau dibwys yn aml, a'u creu'n glasuron clodwiw bombastig. Gyfeillion, y mae *Jerusalem: y Ddinas Sanctaidd* yn cynnwys mapiau lliwgar deniadol o Balestina a Chaersalem. Rhywbeth cwbl chwyldroadol dd'wedwn i ond gallwch fy nghywiro ar hynny. Mae ynddi yn ogystal nifer o ffotograffau du a gwyn sy'n portreadu'r ddinas sanctaidd yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'n llyfr taith felly. Gweddw llyfr taith heb ffotograffau. Yn hyn o beth, mae yma ymgais gwbl fentrus i gyflwyno'r gorau i'r darllenwr. Ceir cynllun cynhwysfawr o'r Deml. Ebe Dyfed, (1850-1923) wrth gyflwyno'r gyfrol: *dywedir yn aml mai un ffordd effeithiol i ddysgu edifeirwch yw cyhoeddi llyfr Cymraeg* ac y mae'n honni mai *Canaan yw y wlad fwyaf dyddorol yn yr holl fyd.* Tipyn o honiad onide!




*Thomas Evan Roberts (1857-1933)*

Rhestrir enwau tanysgrifwyr ar ddiwedd y gyfrol ac y mae'n werth pori yn eu mysg oherwydd gwelir yno enwau cefnogwyr i'r llyfr ac i'r iaith Gymraeg. Dywaid yr awdur yn y Rhagdraeth: *Ymhlith deiliaid yr Ysgol Sabbothol y mae cylchrediad penaf cyfrolau fel hon… Ond ni ddylai y fath lyfrau fod yn gyfyngedig i'r Ysgolion Sabbothol Ni ddylent ychwaith fod yn eiddo i'r enwad hwn neu yr enwad arall. Dylent gael eu derbyn fel rhan o drysorau y genedl.*

Credaf mai dyn o flaen ei oes i raddau oedd Thomas Evan Roberts. Mae'r datganiad uchod yn brawf o hynny. Edmygaf ei arddull agos atoch. Eich tywys drwy'i brofiadau i fannau dieithr a wna gan beri i chwi feddwl eich bod yno'n cyd-deithio ag ef. Mae'n sgwrsio'n syml a chredadwy. Camp aruthrol ysgrifennwr da yw cynnal diddordeb ei ddarllenydd. Dyna a wnâi'r diweddar Ted Breeze Jones yn ei lyfrau. Mae sgwrs dda bob amser yn ennyn gwrandawiad. 'Does raid ond gwrando ar y Gwydion geiriau, John Roberts Williams, i sylweddoli hynny. Dyna beth a geir yn y gyfrol uchod drwodd a thro, a hyn i gyd yn nechrau'r ugeinfed ganrif – gwych iawn wir!

Ond pwy oedd Thomas Evan Roberts? Mab fferm Tŷ Newydd, ger Corwen ym Meirionnydd, ydoedd, hogyn cyffredin o gefn gwlad, a Chymro gwlatgarol. Fe'i ganed yn y flwyddyn 1857. Dengys Cyfrifiad 1861 sy'n ymwneud â phlwyf Corwen mai *Robert* Roberts oedd ei dad, sef gŵr 44 mlwydd oed, a aned yn Llangar. Roedd hefyd yn amaethu Tŷ Newydd a gynhwysai 14 erw o ran tirwedd. Gwerthai hefyd goed a hadau i bobl yn yr ardal. *Catherine*, un o blwyf Corwen, oedd ei wraig. Gwraig 41 mlwydd oed ydoedd hi ac yn fam i'r canlynol: *Alice*, 17 mlwydd oed; *Robert Abel*, 7 mlwydd oed; *Elizabeth*, 5 mlwydd oed; *Thomas Evan*, 3 mlwydd oed, a *David Jones* yn flwydd oed. Ym mhlwyf Corwen y ganed yr oll o'r plant. Nid yw'r fferm yno bellach; fe'i chwalwyd er mwyn creu ystâd ddiwydiannol. Yn ystod tymor yr Hydref, 2000 dywedodd gweithiwr ifanc wrthyf tra y crwydrwn y fangre bod eto'n dal i fodoli, wrth ymyl yr ystâd ddiwydiannol, groesffordd a elwir *Tŷ Newydd.*

Ebe William Williams (yn) *Hanes Methodistiaeth Dwyrain Meirionnydd*, 1902 t.378: *Yr oedd Ysol Sul flodeuog iawn yn Tŷnewydd, Clawddponcen (lle genedigol y Parch. T. E. Roberts, M.A., Aberystwyth), ar y terfyn rhwng Corwen a Gwyddelwern.* Dyma beth sydd gan y Parchedig T.E. Roberts i'w gynnig tra'n trafod Tŷ Newydd, Corwen mewn erthygl o'i eiddo



JERUSALEM:

Y DDINAS SANCTAIDD.

GAN Y

PARCH. THOMAS E. ROBERTS, M.A.,

ABERYSTWYTH.

GYDAG AMRYW

DDARLUNIAU A MAPIAU,

A CHYDA DWY RAGDRAETH GAN

Y PRIFATHRAW DR. ROBERTS,

A'R

PRIF-FARDD DYFED.

Caernarfon:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN W. GWENLYN EVANS,

SWYDDFA'R "GENINEN."

1904

*Wyneb-ddalen Jerusalem: y Ddinas Sanctaidd, 1904*

yn *Y Drysorfa* Hydref 1925: *Bu y ty hwn yn gartref i Ysgol Sul, ac i bregethu achlysurol, am gyfnod o 65 mlynedd cyn codi capel bychan Clawddpongcen.* Yn y flwyddyn 1877 yr adeiladwyd y capel sydd bellach wedi'i gau.

Yn gryno dyma rai manylion sy'n ymwneud â bywyd y Parchedig Thomas Evan Roberts, awdur *Jerusalem: y Ddinas Sanctaidd*. Y mae gweddill yr hanes yn ei grynswth wedi'i adael mewn ffeil yn Archifdy Meirion, Dolgellau. Yr oedd brawd ieuengach iddo, sef John David Roberts â'i fryd ar fod yn weinidog, ond bu farw'n ifanc. Roedd Thomas Evan eisoes wedi dechrau pregethu yn Nyffryn Ceiriog, a chynrychiolai ei Ysgol yng Nghyfarfod Ysgolion Dosbarth Edeirnion. Ymhellach ymlaen yn ei fywyd adwaenid ef wrth yr enw 'Edeirnion'. Ychydig o fanteision addysg a gafodd yn fachgen. ond, yn ddeunaw mlwydd oed, penodwyd ef yn athro cynorthwyol yn Ysgol Bwrdd Brymbo. Yr oedd yn aelod selog o'r Eglwys yn Adwy'r Clawdd. Ond roedd Crist yn ei alw ac addysgwyd Thomas Evan, ac yntau'n 20 oed ar y pryd, ar gyfer y weinidogaeth, yng Ngholeg y Bala. Bu yno bedair mlynedd i gyd cyn sefyll Arholiad Ordeinio yn y flwyddyn 1882, a chael y trydydd safle ar y rhestr. Yr hydref hwnnw aeth i Brifysgol Caeredin yn yr Alban, lle bwriodd bedair blynedd i gyd, gan ennill tystysgrif y dosbarth blaenaf mewn Athroniaeth Foesol a hefyd mewn Mesuroniaeth ac Anianaeth. Yn y flwyddyn 1886 cymerodd ei radd M.A., cyn dyfod yn weinidog i Groesor a Llanfrothen ac yn ystod y flwyddyn honno, gan ddefnyddio'r ffugenw 'Moelwyn', gyda'r Dr Henry Jones M.A. Llangernyw yn beirniadu, enillodd y wobr gyntaf am lawlyfr Cymraeg ar Resymeg, a'r wobr, sef £5.5s., yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1886. Bu'n Weinidog Llanfrothen a Chroesor hyd y flwyddyn 1888 pryd y bu'n rhaid iddo arwain 'brwydr agor mynwent Llanfrothen i Ymneilltuwyr,' gyda'r Cyfreithwr, Mr. David Lloyd George, (cyn iddo ddyfod yn Aelod Seneddol a, maes o law, yn Brif Weinidog gwledydd Prydain), yn rhoi cyfarwyddyd iddynt ddryllio cloadau llidiart gaeëdig y fynwent.

Gadawodd Thomas Evan Roberts Ogledd-Orllewin Meirionnydd am dref Croesoswallt yn y flwyddyn 1888, a dechrau ar ei waith yno ym mis Mawrth. Bu yno hyd y flwyddyn 1895 pryd y dychwelodd i Gymru, a chymryd gofal fel Gweinidog o eglwys Siloh, Aberystwyth, (1895 – 1925). Yn y flwyddyn 1896, ceisiodd, gyda chefnogaeth yr Athro D. Morgan Lewis ac eraill yn Aberystwyth, sefydlu Cymdeithas Llafar Gwlad. Ei briod gyntaf oedd Mary Hannah Davies a ddaliai gyswllt â Chorris. Bu iddynt un mab,